**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Medi 28ain 2016 am 7.30 yh yng Nghanolfan Cymunedol Gwytherin

Ymddiheuriadau: nid oedd ymddiheuriad.

Presennol: Gwydion A Jones (Cadeirydd), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, Elen H Edwards, Ian W Griffith, Ifor G Edwards, R Emlyn Williams, Cynghorydd Dilwyn O Roberts a'r Clerc.

58.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

58.2 PROSIECT HEN YSGOL LLANGERNYW – nid oedd yn hwylus i'r Parch Sally Rogers ddod i'r cyfarfod a PHENDERFYNWYD ei gwahodd i'r cyfarfod nesaf. Os oedd llawer ar yr Agenda penderfynwyd dechrau'r cyfarfod am 7 o'r gloch. Y Clerc i roi gwybod iddi y dylid cysylltu â swyddogion Conwy os am fwy o wybodaeth am ganlyniad y cais am grant.

58.3 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion cyfarfod Gorffennaf 26ain a Medi 5ed ac fe'u derbyniwyd fel cofnod cywir.

58.4 BAND EANG CYFLYM – derbyniwyd copi o lythyr drwy law Mr Darren Millar AC ynglŷn ag anawsterau cael band eang i bob rhan o Gymru.

58.5 LLWYBR CYHOEDDUS GER TAFARN Y BONT – penderfynwyd i gysylltu eto yn nodi bod y llwybr wedi ei symud. Nid oedd ymateb wedi dod ynglŷn a Phont dros Afon Gall.

58.6 FFORDD ALLT WATERLOO – cafwyd ymateb bod arolwg o'r ffordd i fod yn fuan a PHENDERFYNWYD gofyn am gyfarfod safle i ddatgan ein pryder.

58.7 CAIS CYNLLUNIO RHIF 0/43171 Addasiadau a thrawsnewid adeiladau fferm i ffurfio 6 o unedau gwyliau (gan gynnwys 1 uned staff ac 1 uned hygyrch), mynediad, parcio, ceubwll a gwaith atodol yn Hendre Ddu, Llangernyw gan Mr & Mrs P & L James - PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.

58.8 CÔD YMDDYGIAD DIWYGIEDIG – wedi trafodaeth PENDERFYNWYD yn unfrydol i gynnwys y pennawd 'Datgan Cysylltiad a/neu Fuddiant' yn ein Côd Ymddygiad newydd a'i roi ar Agenda'r cyfarfod nesaf.

58.9 RHEOLIADAU ARIANNOL – y Clerc i gysylltu ag Un Llais ynglŷn a'r fersiwn diweddaraf.

58.10 TOILEDAU CYHOEDDUS – trafodwyd llythyr y Cyfreithwyr Howell Jones yn argymell ein bod yn cael arolwg strwythurol o'r adeilad ond PENDERFYNWYD yn unfrydol i ofyn i Gyngor Conwy am lythyr yn cadarnhau bod yr adeilad yn strwythurol gadarn ac i fyny i safon Rheoliadau Adeiladu a gyda thystysgrif trydanol. Hefyd cadarnhawyd bod cymal yn y Cytundeb bod Cyngor Conwy yn cymryd yr adeilad yn ôl os nad oedd y Fenter yn parhau. Deallir bod angen i'r Fenter gael ei chofrestru fel elusen cyn agor cyfrif banc.

58.11 CAIS ARIANNOL – PENDERFYNWYD cyfrannu £30 at Urdd Gobaith Cymru – Rhanbarth Conwy.

58.12 CRONFA BRO CERNYW – daeth cais gan Swyddog Hamdden Gwledig Conwy Mr Tim Ballam yn gofyn os oedd yn bosib i fudiad o'r tu allan i'r ardal wneud cais am arian i redeg gweithgaredd ym Mro Cernyw h.y. Ffit Conwy. PENDERFYNWYD yn unfrydol nad oedd hyn yn bosibl ac mai dim ond clybiau/cymdeithasau lleol oedd â'r hawl i wneud cais. Gallai unrhyw gorff neu sefydliad megis Cymdeithas Rhieni ac Athrawon neu Bwrlwm Bro wneud cais ar eu rhan yn lle bod y plant yn colli allan.

58.13 MYNWENTYDD GWYTHERIN A LLANGERNYW- roedd y Clerc wrthi'n gwneud ymholiadau ynglŷn â gweithredoedd Mynwent Gwytherin. Pwysleisiwyd mai dim ond 'hawl tramwy' oedd trwy'r Fynwent i'r eglwys a'r cae gerllaw. Trafodwyd yr angen i roi cymal yn Rheolau'r Mynwentydd i rwystro claddu o bell ynddynt – y Pwyllgor Mynwentydd i drafod hyn.

58.14 CYFETHOL AR Y CYNGOR – darllenwyd llythyr o eiddo Miss Einir Williams, Gwytherin oedd yn dymuno llenwi'r sedd wag. Dangosodd Emlyn Williams ddiddordeb yn y mater. PENDERFYNWYD yn unfrydol i roi gwadd i Einir Williams ar y Cyngor.
Trafodwyd trefnu rhywbeth er cof am y Cynghorydd Tecwyn Evans – a'i roi ar yr Agenda nesaf.

58.15 GOHEBIAETH – y Clerc i anfon rhain ar ebost i'r aelodau. – Treth y Cyngor (Conwy), Comisiwn Ffiniau, Grwp Cyfeiriol Rhan-ddeiliaid (Un Llais).

58.16 MATERION LLEOL
58.16.1 Gwrych yn gordyfu ger cyffordd Glanrhyd, Pandy Tudur ac yn bachu mewn cerbydau.
58.16.2 Angen gwneud rhywbeth ar frys am Allt Tyn Pistyll gan fod cymaint o deithio ar hyd-ddi a'i chyflwr yn ddifrifol. Angen llefydd pasio neu dynnu gwrych er mwyn gwella gweledIad. Mae tacsi plant ysgol yn teithio arni. Os na wneir unrhyw beth dylid trefnu deiseb.
58.16.3 Cadwch Gymru'n Daclus – y ffurflen adrodd am gasglu sbwriel yn rhy faith a chymhleth.
58.16.4 Baw cŵn yn Llangernyw – Sam Jones y Swyddog am anfon cerdyn gyda manylion lle i gysylltu i gwyno i bob tŷ yn stad Glan Collen.
58.16.5 Darn o wal pont ger Ddôl Bach wedi disgyn a phont Rhydeden a phont ger Hafod, Gwytherin angen sylw.
58.16.6 Tynnodd y Cynghorydd Dilwyn Roberts sylw at yr argymhelliad bod contractwyr lleol yn cael cynnig torri ochrau ffyrdd a bod 'ragwort' yn cael ei drin cyn iddo flodeuo.
58.16.7 Bydd y cyfarfod nesaf cyn neu ar ôl hanner tymor yn ôl yr angen.
58.16.8 Bydd angen pwyllgor Cylchlythyr yn fuan.

58.17 BILIAU

| | |
|---|---|
| Dŵr Cymru (Mynwent Llangernyw) | £16.41 |
| D Evans (Chweched toriad Mynwentydd) | £510 |

(angen edrych os oes angen toriad arall)

Daeth y cyfarfod i ben am 9.45 yh.

*Cymeradwywyd y Cofnodion …G A Jones……………….. Dyddiad …2/11/16…………….*

*Community Council Meeting was held Wednesday, September 28th 2016 at 7.30 pm, at the Community Centre, Gwytherin*

*Apologies: there was no apology.*

*Present: Gwydion A Jones (Chair), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, Elen H. Edwards, Ian W Griffith, Ifor G Edwards, R Emlyn Williams, Cllr Dilwyn Roberts & Clerk.*

*58.1 DECLARATION - members were given the opportunity to declare a connection with an item on the agenda.*

*58.2 OLD LLANGERNYW SCHOOL PROJECT - it was not convenient for the Rev. Sally Rogersto attend the meeting and RESOLVED to invite her to the next meeting. If there was a lot on the agenda was decided to start meeting at 7 o'clock. Clerk to advise her to contact Conwy officers for more information about the outcome of the grant application*

*58.3 MINUTES - looked at minutes 26th July and September 5 and were accepted as a correct record.*

*58.4 FAST BROADBAND - received a copy of a letter received by Mr. Darren Millar AM on difficulties getting broadband to all parts of Wales.*

*58.5 PUBLIC PATH NEAR BRIDGE INN - decided to contact again indicating that the path has been moved. There was no response re the bridge over Dyffryn Gall river.*

*58.6 WATERLOO HILL - responded that a review of the road would be completed soon and RESOLVED to request a site meeting to express our concern.*

*58.7 PLANNING APPLICATION NO 0/43171 Alterations and conversion of farm buildings to form 6 holiday units (including one accessible unit staff and 1 unit), access, parking, cesspit and ancillary works at Hendre Ddu, Llangernyw by Mr & Mrs P & L James - RESOLVED unanimously to support the application*

*58.8 REVISED CODE OF CONDUCT - following a discussion it was unanimously decided to include the heading 'Declaration of Interest or Gain' in our new Code of Conduct and put on the next Agenda.*

*58.9 FINANCIAL REGULATIONS - The Clerk to contact One Voice re the latest version.*

*58.10 PUBLIC TOILETS - Lawyers Howell Jones letter was discussed and it recommended that we get a structural survey of the building but RESOLVED unanimously to ask Conwy Council for a letter confirming that the building is structurally sound and up to standard with the Building Regulations and electrical certificate. Also confirmed that a clause in the agreement should read that Conwy Council took the building back if the Enterprise folded. It is understood that Menter Bro Cernyw needs to be registered as a charity before opening a bank account.*

*58.11 FINANCIAL CONTRIBUTIONS - RESOLVED to contribute £ 30 to the Urdd - Conwy Region.*

*58.12 BRO CERNYW FUND - a request by Conwy Rural Recreation Officer Mr Tim Ballam asking if it was possible for an organization from outside the area to apply for money to run activities in Bro Cernyw ie Fit Conwy. RESOLVED unanimously that this was not possible and that only local clubs/associations had the right to apply. Any body or organization such as PTA or Bwrlwm Bro could apply on their behalf so the children will not lose out.*

*8.13 GWYTHERIN AND LLANGERNYW CEMETERIES - the Clerk is inquiring about the deeds of Gwytherin Cemetery. It was emphasized that the only 'right of way' was through the cemetery to the church and a nearby field. We need to put a clause in the Rules to prevent Cemetery burial from outside the area - the Cemetery Committee to discuss this.*

*58.14 CO-OPTION ON THE COUNCIL - A letter was read from Miss Einir Williams, Gwytherin who wanted to fill the vacant seat. Emlyn Williams showed interest in the matter. RESOLVED unanimously to co-opt Einir Williams on the Council. It was discussed to arrange something in memory of Councillor Tecwyn Evans - and discuss at the next meeting.*

*58.15 CORRESPONDENCE - the Clerk to send these emails to members. - Council Tax (Conwy), Boundary Commission, Stakeholder Reference Group (One Voice).*

*58.16 LOCAL ISSUES*
*58.16.1 Overgrown hedge at the junction Glanrhyd, Pandy Tudur scratching vehicles.*
*58.16.2 Need to do something urgently about Tyn y Pistyll Hill because so many travel along it and its condition is serious. Passing places need to be made or remove hedges to improve visibility. Schoolchildren bus travels along it. If nothing is done we should organize a petition.*
*58.16.3 Keep Wales Tidy - the report form for the collection of rubbish is too long and complicated.*
*58.16.4 Dog Fouling in Llangernyw – officer Sam Jones to send a postcard with details of where to contact to report dog fouling to every house in Glan Collen estate.*
*58.16.5 Part of wall had fallen away from bridge near Ddôl Bach and bridge near Hafod, Gwytherin and near Rhydeden needed attention.*
*58.16.6 Cllr Dilwyn Roberts drew attention to the recommendation that local contractors should be offered cutting roadsides contract and 'ragwort' is treated before flowering.*
*58.16.7 The next meeting will be before or after the half term as needed.*
*58.16.8 Newsletter committee will meet soon.*

*58.17 BILLS*
*Welsh Water (Llangernyw Cemetery) £ 16.41*
*D Evans (Sixth cut to Cemeteries) £ 510*
*(Need to look if you need another cut)*

*The meeting came to a close at 9.45 pm.*

*Approved the Minutes ....G A Jones................................ ..      Date ...2/11/16.....................*